# Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru: Ymchwiliad Byr i effaith costau cynyddol

## Ymateb gan Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru)

## 1. Cyflwyniad

Yn CDCCymru **ein nod yw cynhyrchu gwaith dawns gwych** a gweithredu fel eiriolwr cryf dros ddawns a'r celfyddydau yng Nghymru. Drwy wneud hynny, **rydym yn dangos i'r byd sut le yw'r Gymru fodern** - cenedl o ragoriaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth wrth i ni arloesi i wthio ffiniau'r hyn y gellir ei gyflawni ar lwyfannau ledled y byd.

Yng Nghymru, rydym yn **creu cyfleoedd i bobl** fynegi eu bywydau a'u gwerthoedd drwy ddawns, gyda buddion cymdeithasol ac iechyd i'r meddwl a'r corff ac yn datblygu **cenedl hapusach, fwy iachus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gweithio ym mhob cwr o Gymru, o drefi bach i'r dinasoedd, gan weithio gyda phartneriaid yn eu cymunedau i **gyflwyno dawns i bobl yn eu lleoedd eu hunain** ar draws y genedl, a thu hwnt.

## 2. Yr effaith y mae'r cynnydd mewn costau wedi'i chael hyd yma

Mae costau cynyddol marchnata (digidol a chyfryngau), teithio a thrafnidiaeth (tocynnau teithio a chostau tanwydd), yswiriant a chynnydd cyffredinol y tu hwnt i'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer wedi cael effaith ar raddfa a maint ein gwaith. Mae'r amcangyfrif o'r cynnydd mewn costau byw hyd yma wedi bod yn oddeutu 7% o''i gymharu â'r un adeg y llynedd. Ar yr un pryd, mae'r gystadleuaeth am gyllid wedi cynyddu ar ôl i'r rhan fwyaf o gynlluniau a gyflynwyd mewn ymateb i'r pandemig ddod i ben.

I liniaru'r pwysau hwn, rydym wedi lleihau maint ein marchnata ac wedi gadael swyddi'n wag am gyfnod. Mae effaith hynny wedi lleihau ein cyrhaeddiad o ran perfformio ac ymgysylltu.

## 3. Yr effaith fydd y cynnydd mewn costau yn ei chael ar ein sefydliad a'r sector. A fydd yr effeithiau hyn yn anghildroadwy?

Ar ôl cynnal dadansoddiad o'r pwysau costau byw sy'n debygol o ddod yn 2023/24, rydym yn amcangyfrif y bydd costau cyffredinol yn codi – ac incwm yn gostwng – gydag effaith negyddol gyfunol o rhwng £186,000 a £210,000, sy'n cyfateb i tua 13% o'r trosiant.

Mae'r pwysau ar gyfleustodau, costau sy'n gysylltiedig â mynd ar deithiau gan gynnwys teithio a llety, costau ymgysylltu artistiaid oherwydd ffioedd cynyddol a'r cynnydd mewn costau teithio, costau marchnata a digidol yn ogystal â chynnal a chadw, yswiriant a gwasanaethau TG.

Yn ogystal, rydym yn cynllunio codiadau cyflog uwchlaw'r rhai a ragwelwyd yn ein cynllunio gwreiddiol flwyddyn yn ôl i alluogi staff a gweithwyr llawrydd i geisio cadw i fyny â phwysau chwyddiant. Roedd ein model busnes cyn y pandemig yn dibynnu arnom yn ennill ffioedd o deithio yn yr UE, ond oherwydd bod y galw am gwmnïau yn y DU wedi'i atal, a chostau teithio cynyddol, mae'r elw disgwyliedig ar y rhan hon o'n busnes wedi mwy na haneru.

Effaith y pwysau hwn yw lleihau ein capasiti, cyfyngu ar gyllidebau ar gyfer gwaith newydd a theithio, sy'n lleihau ein gallu i gyflawni gwaith ymgysylltu ledled Cymru. Os yw'r pwysau'n lleihau neu os bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu canfod, mae hyn yn gildroadwy. Rydym wedi sicrhau nad ydym wedi gwneud newidiadau na ellir eu gwrthdroi fel y gellir adennill gweithgareddau os a phan fydd y pwysau'n lleihau, er mai'r asesiad yw bod hyn yn debygol o fod rhai blynyddoedd yn y dyfodol.

Mae eraill yn y sector dawns a'r sector celfyddydau ehangach hefyd yn profi'r effeithiau hyn. Mae cwmnïau llai ac artistiaid annibynnol – sy'n dibynnu ar grantiau bach i greu a chynnal gwaith teithiol – yn dioddef argyfwng costau byw sy'n dod o sawl cyfeiriad gwahanol: costau teithio a llety uwch, biliau cyfleustodau uwch, ynghyd ag incwm llai o ganlyniad i deithio rhyngwladol yn dirywio a sefyllfa lleoliadau celfyddydol yng Nghymru sydd dan bwysau. Mae'r hyn a oedd eisoes yn fodolaeth a dull teithio ansicr yn dod yn annichonadwy.

4. **Ymyriadau yr hoffem eu gweld gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU**

Y gofyniad mwyaf brys yw am eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch pa sectorau fydd yn cael cymorth gyda chostau cyfleustodau ar ôl mis Ebrill. Nid yw'n glir a fydd y sector creadigol a diwylliannol yn cael ei ystyried yn grŵp busnes â blaenoriaeth, a heb gymorth parhaus rydym yn cyfrifo y bydd costau cyfleustodau'n cynyddu o leiaf 300%. Byddai cynnydd o'r fath yn cael canlyniadau difrifol o ran faint o waith a gyflawnir, y capasiti a'r cyrhaeddiad.

Dylai Llywodraeth y DU ymestyn y cynnydd mewn rhyddhad treth i'r sector creadigol dros dro (dyblwyd y cyfraddau yn ystod y pandemig) y tu hwnt i ddiwedd 2022/23. Byddai hyn yn galluogi i fusnesau diwylliannol adfer yn y tymor hir a chynllunio gyda mwy o hyder.

Roedd y Gronfa Adferiad Diwylliannol a grëwyd yn 2020 ar gyfer sefydliadau a gollodd incwm yn ystod y pandemig yn fodel cryf o ddarparu cymorth cyflym i'r rhai mwyaf anghenus: roedd hefyd yn galluogi i rai o'r rhaglenni sy'n gweithio gyda'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol i barhau (neu i gychwyn). Byddai cynllun o'r fath sy'n cynnig cymorth wedi'i dargedu i'r cwmnïau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan yr argyfwng yn achubiaeth.

5. **Yr effeithiau rydym yn eu disgrifio yn disgyn yn wahanol ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl o statws economaidd-gymdeithasol is.**

Mae risg, os bydd maint y gwaith a gomisiynir yn lleihau, y bydd hynny'n cael effaith ar y sector llawrydd, gan gynnwys artistiaid a thechnegwyr. Fel y dangosodd y pandemig, mae bywoliaeth rhai gweithwyr llawrydd yn ansicr ar y gorau, ac mae tystiolaeth i ddangos bod pwysau costau byw yn cael eu teimlo'n anghymesur ar y rhai sydd â'r lleiaf. Mae'n dilyn y byddai unrhyw leihad mewn gwaith yn cael effaith ddifrifol ar y rhai sy'n dibynnu ar gontractau o'r fath.

Fel cwmni rydym yn gweithio gyda phobl yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, yn ogystal â'r rhai y mae mynediad at y celfyddydau yn uniongyrchol gysylltiedig â'u hanabledd. Am resymau daearyddol ac economaidd, mae'n anoddach iddynt gael mynediad i'r celfyddydau ac yn aml eu cysylltiad â CDCCymru yw'r unig bosibilrwydd o'r fath. Os yw ein gwaith ymgysylltu'n cael ei wasgu oherwydd y gyllideb, byddai hynny'n cael effaith anghymesur ar y bobl hyn.

Hyd yma rydym wedi gallu lliniaru'r effeithiau hyn, ac nid ydynt wedi disgyn ar bobl â nodweddion gwarchodedig na'r rheini â statws economaidd-gymdeithasol is. Nid yw'r effaith lawn wedi'i theimlo eto, ond pan fyddant, byddwn yn parhau i ymdrechu i sicrhau nad ydynt yn effeithio ar y grwpiau hyn.

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Mis Medi 2022